Comisiynydd Cwynion Gwasanaethau Cyfreithiol

Gwaith ar y gweill

Swyddfa Comisiynydd Cwynion Gwasanaethau Cyfreithiol (OLSCC)
Adroddiad Blynyddol 2007/2008

Pwyntiau allweddol

- Pasio'r Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol – blwyddyn bwysig iawn.
- Mae rheoleiddio'r gwaith o drin cwynion Cymdeithas y Gyfraith yn dod â chanlyniadau.
- Mae'r Comisiynydd yn bositif am y dyfodol – gwnaed gwelliannau amlwg eleni ond mae gwaith hanfodol i'w wneud o hyd.
- Y system trin cwynion ar hyn o bryd – rhaid iddi barhau i wella ar gyfer defnyddwyr presennol.
- Y gwaith o drin cwynion cyfreithiol yn mynd drwy gyfnod o drawsnewid – mae peryglon o'n blaenau – angen cynllunio ar gyfer y dyfodol.

Cefndir ychwanegol am Swyddfa'r Comisiynydd:

- Rheoleiddiwr sy'n dawel hyfedrus.
- Yn falch o'r hyn a gyflawnwyd hyd yma – yn grym ytu l i welliannau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.
- Edrych ymlaen at beth y gallwn ei gyflawni yn y dyfodol. Ni ellir codi troed oddi ar y pedal. Yr flaenoriaeth yw rhoi dechrau da i'r Swyddfa Cwynion Cyfreithiol drwy sicrhau bod gwell trefn ar y Gwasanaeth Cwynion Cyfreithiol.

Diwastraff, effeithiol, ac yn rhoi gwerth am arian.

Crynodeb Gweithredol

Yn ymdrin:

* Rôl a phwerau'r Comisiynydd Cwynion Gwasanaethau Cyfreithiol
* Targedau a Chynllun Cyndeithas y Cyfraith ar gyfer 2007/08
* Perfformiad Cyndeithas y Cyfraith yn erbyn ei Chynllun Trin Cwynion ar gyfer 2007/08
* Crynodeb o Berfformiad i
* Ffactorau sy'n effeithio ar berfformiad LCS ac SRA 2007/8
* Darganfyddiadau archwiliad
* Archwiliad ac Adroddiad Arbennig am y Cynllun Yswiriant Iechyd Glo
* Deddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007
* Targedau'r Comisiynydd ar gyfer Cyndeithas y Cyfraith 2008/09
* Gweithgareddau Comisiynydd Cwynion Swyddfa'r Gwasanaethau Cyfreithiol
* Canlyniad Penderfyniad y Comisiynydd ynghylch Perfformiad Cyndeithas y Cyfraith 2006/2007

Rôl a phwerau Comisiynydd Cwynion Gwasanaethau Cyfreithiol
Rôl y Comisiynydd Cwynion Gwasanaethau Cyfreithiol[2] yw rheoleiddio a gweithio gyda Chymdeithas y Gyfraith i sicrhau bod cwynion yn cael eu trin yn effeithiol ac yn effeithlon. Cyflwynir pwerau'r Comisiynydd yn y Ddeddf Mynediad at Gyfiawnder 1999 ac maent yn cynnwys gosod targedau ar gyfer trin cwynion, gwneud argymhellion a'i gwneud yn ofynnol i Gymdeithas y Gyfraith gyflwyno Cynllun i drin cwynion am ei haelodau. Yn ychwanegol, mae gan y Comisiynydd y grym i osod cosb ar Gymdeithas y Gyfraith os yw'n methu â chyflenwi Cynllun digonol neu os yw'n methu â thrin cwynion yn unol â'r Cynllun hwnnw.

Ers Ionawr 2006 mae Cymdeithas y Gyfraith wedi gweithredu fel tri endid:
- Mae'r Gwasanaeth Cwynion Cyfreithiol (Legal Complaints Service - LCS) yn ymdrin â chwynion gan ddefnyddwyr am y gwasanaeth a dderbynnir oddi wrth eu cyfreithiwr.
- Mae'r Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr (Solicitors Regulation Authority - SRA) yn rheoleiddio cyfreithwyr ac yn ymdrin â chwynion lle honnir bod cyfreithwyr wedi camymddwyn.
- Mae Cymdeithas y Gyfraith yn cynrychioli cyfreithwyr i warchod a hyrwyddo eu gwaith.

Cymdeithas y Gyfraith yw'r corff y mae gan y Comisiynydd bwerau rheoleiddio drosto o hyd ac mae'n gyfrifol am gyflwyno Cynllun Trin Cwynion. Ond mae Cymdeithas y Gyfraith yn dirprwyo cyfrifoldeb gweithredol am drin cwynion i LCS ac SRA. Cymerdwyir yr ariannu ar gyfer LCS ac SRA gan Gyngor Cymdeithas y Gyfraith.

Targedau a Chynllun Cymdeithas y Gyfraith ar gyfer 2007/08
Ym mis Hydref 2006, gofynnodd y Comisiynydd yn ffurfiol am Gynllun ar gyfer gwella'r modd y trinir cwynion i ymdrin â'r cyfnod 1 Ebrill 2007 i 31 Mawrth 2008. Y cyfnod hwn oedd y drydedd flwyddyn o weithio i Gynlluniau Trin Cwynion ar gyfer braich trin cwynion Cymdeithas y Gyfraith. Pedair nod allweddol y Comisiynydd ar gyfer cyflenwi yn ystod y cyfnod hwn oedd:
1. Gwelliannau mewn prydlondeb i'w datblygu a'u cynnal
2. LCS ac SRA i gymhwyso eu polisïau a'u gweithdrefnau eu hunain
3. Gwelliannau busnes ehangach o fewn LCS ac SRA
4. Pwyslais ar faterion budd cyhoeddus (gan gynnwys cleientiaid bregus)

Ym mis Rhagfyr 2006, gosododd y Comisiynydd dri ar ddeg o dargedau[3] yn ymdrin â phrydlondeb (cyflymder y gwaith o drin cwynion), ansawdd a gweithredu'r Cynllun.

Yn dilyn cyfnod o gydweithio rhwng Cymdeithas y Gyfraith, LCS, SRA ac OLSCC, roedd Cynllun digonol ar gyfer trin cwynion, yn cynnwys targedau a osodwyd gan y Comisiynydd yn barod yn ystod Ebrill 2007, yn gynharach nag yn y flwyddyn flaenorol.

Yn ychwanegol at y targedau a osodwyd gan y Comisiynydd, roedd cynllun Cymdeithas y Gyfraith hefyd yn cynnwys tri Phrosiect Gwella Trin Cwynion ehangach (a elwid yn CHIPs) – "*blociau adeiladu*" i gefnogi newidiadau trefniadaethol tymor canolig mewn proses a chyflenwi. Byddai cynnwys y prosiectau hyn o fewn y Cynllun gan LCS ac SRA yn ei gwneud yn bosibl i OLSCC fonitro'n agos y cyflenwi a'r canlyniadau a sicrhawyd.

2. Er mwyn gallu cyfeirio at hynny yn rhwydd o fewn yr adroddiad blynyddol hwn, cyfeirir at Gomisiynydd Cwynion Gwasanaethau Cyfreithiol fel y Comisiynydd.

3. Gosodwyd un targed pellach yn y flwyddyn ar 15 Ionawr 2008 ynghylch Achosion Iawndal Iechyd Glo.

Roedd y CHIPs a gynhwyswyd yng Nghynllun Trin Cwynion 2007/08 yn ymdrin â: Chydraddoldeb ac Amrywiaeth, adolygiad cyffredinol o'r broses trin cwynion a chyhoeddi cofnodion cwynion cyfreithwyr.

Perfformiad Cymdeithas y Gyfraith yn erbyn ei Gynllun Trin Cwynion ar gyfer 2007/08
Bu i Gymdeithas y Gyfraith (LCS ac SRA) fodloni chwech o'r 13 o dargedau a osodwyd ar gyfer 2007/08, aethpwyd y tu hwnt i ddau a methwyd pump. Ond o blith y saith targed a osododd y Comisiynydd yn ymwneud ag ansawdd (y cafodd chwech ohonynt eu mesur drwy sampl archwilio briodol), bodlonodd Cymdeithas y Gyfraith ddau yn unig a methwyd pump.

Crynodeb o Berfformiad

• Gwelliannau mewn prydlondeb:

1. Dim ond nifer fechan o achosion dros 12 mis oed yn dal ar agor ar ddiwedd Mawrth 2008.
2. 67% o achosion wedi eu cau o fewn 3 mis o'u derbyn (cyflawnwyd 77% gan SRA a chyflawnwyd 63% gan LCS).

• Perfformiad cymysg o ran Ansawdd:

Bodlonwyd dau darged:

1. Mewn 97.1% o achosion cadarnhawyd gwybodaeth safonol arbennig i gwsmeriaid/hysbyswyr (yn erbyn targed o 93%)
2. Mewn 90.6% o achosion rhoddwyd digon o wybodaeth i'r defnyddiwr i wneud penderfyniad goleuedig ar gyfer cymodi neu Gynnig Rhesymol wedi ei Wneud (Reasonable Offer Made - ROM) (yn erbyn targed o 85%) - gosodwyd y targed hwn ar gyfer LCS yn unig.

Ni fodlonwyd pump targed:

1. Cafodd 92.3% o achosion eu cydnabod o fewn 5 diwrnod gwaith (yn erbyn targed o 93%). Cyflawnodd LCS 93.4%, cyflawnodd SRA 89.2%.
2. Derbyniodd 86.2% o gwynion ymateb sylweddol o fewn 45 diwrnod calendr o'u derbyn (yn erbyn targed o 88%). Cyflawnodd LCS 84.9%, cyflawnodd SRA 90.8%.
3. Derbyniodd y defnyddiwr/hysbysydd ddiweddariad penodol mewn 79.9% o achosion (yn erbyn targed o 88%). Cyflawnodd LCS 76.3% a chyflawnodd SRA 98.4%.
4. Roedd yr ystyriaeth a roddwyd i Daliadau Arbennig yn unol â pholisi perthnasol LCS ac SRA mewn 84.4% o achosion (yn erbyn targed o 85%). Sicrhaodd LCS 81.8% a sicrhaodd SRA 94.1%.
5. Cefnogodd Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyfreithiol (Legal Services Ombudsman - LSO) y modd y cafodd yr achos ei drin mewn 71% o achosion (yn erbyn targed o 73%). Cyflawnodd LCS 67% a chyflawnodd SRA 81%.

• Gweithredu'r Cynllun – bodlonwyd y targedau a'r argymhellion:

1. Defnyddiwyd o leiaf 95% o gyfanswm y gyllideb i gefnogi cyflenwi Cynllun Trin Cwynion 2007/08 LCS ac SRA.
2. Defnyddiwyd o leiaf 95% o'r holl adnoddau (gan gynnwys staff, gwaith a drefnir trwy gontract allanol a Swyddogion Cymodi Lleol) yn unol â Chynllun Trin Cwynion 2007/08.
3. Cynlluniau Blaenoriaeth (y tri CHIP) i'w cyflenwi mewn pryd ac o fewn y costau a gwireddwyd yr holl gerrig milltir a'r buddion cysylltiedig i gefnogi cyflenwi Cynllun Trin Cwynion 2007/08 yr LCS a'r SRA.
4. Cynnydd yn erbyn Cynllun Trin Cwynion 2007/08, targedau a dangosyddion perfformiad allweddol cefnogol y Comisiynydd wedi eu hadrodd i'r Comisiynydd bob mis erbyn y dyddiadau a gytunwyd.

Ffactorau sy'n effeithio ar berfformiad LCS a SRA 2007/8

• Yn 2007/08 derbyniodd LCS ac SRA 19,219 o achosion newydd, 785 yn fwy nag a dderbyniwyd yn 2006/07. Caeodd LCS ac SRA ar y cyd 18,534 o achosion yn ystod y flwyddyn, 1,821 o achosion a gaewyd yn llai na'r llynedd.

• Mae'r cynnydd yn yr achosion a dderbyniwyd yn gysylltiedig â'r 1,770 o Achosion Iawndal Iechyd Glo a dderbyniwyd yn 2007/08 (i fyny o 518 yn 2006/07).

• Mae canlyniadau yn erbyn y targedau ar gyfer 2007/08 yn dangos gwahaniaeth cynyddol ym mherfformiad LCS ac SRA. Gyda'i gilydd mae LCS ac SRA wedi bodloni dau darged (Q2B a Q3) ond wedi methu â bodloni pump o dargedau ansawdd (Q1, Q2A, Q4, Q5 a Q6). Yn unigol, mae'r canlyniadau yn dangos fod SRA, yn gyffredinol, wedi perfformio yn fwy effeithiol na'r LCS, gan fodloni pob un ond un o'r targedau ansawdd a osodwyd.

• Cyfrannodd Cymdeithas y Gyfraith £500,000 ychwanegol ym mis Tachwedd 2007 er mwyn helpu LCS i adfer ei berfformiad i fod yn fwy unol â thargedau Cynllun 2007/08 oherwydd ei fod y pryd hynny yn methu â'u cyflawni.

• Nododd LCS y byddai cyflenwi targedau a chynlluniau Gwella yng Nghynllun 2007/08 yn cael ei gynorthwyo gan gyflwyno system TG newydd yn ystod blwyddyn y cynllun (Visualfiles). Yn dilyn adolygiad gan Gymdeithas y Gyfraith ym mis Tachwedd 2007, cafodd y prosiect Visualfiles ei atal ym mis Rhagfyr 2007.

Bydd y Comisiynydd yn penderfynu a wnaeth Cymdeithas y Gyfraith drin cwynion yn unol â Chynllun 2007/08 ar ôl rhoi ystyriaeth i bob ffactor briodol gan gynnwys y data Archwiliad Diwedd Blwyddyn. Ei bwriad yw hysbysu Cymdeithas y Gyfraith a yw wedi trin cwynion yn unol â'i Chynllun ar gyfer 2007/08 erbyn diwedd Mehefin 2008.

Darganfyddiadau'r archwiliad
Cynhaliodd OLSCC bedwar archwiliad penodol[4] i achosion LSC ac SRA yn ystod 2007/08.

Roedd yr archwiliadau a wnaed yn ystod 2007/08 fel a ganlyn:

- Archwiliad Ansawdd Canlyniadau
- Archwiliad Cynllun Iawndal Iechyd Glo
- Archwiliad Targedau Dangosol
- Archwiliad Targedau Diwedd Blwyddyn

Gwnaed ymarfer meincnodi hefyd ym Mehefin 2007 a werthusodd agweddau amrywiol o brif sefydliadau trin cwynion i nodi arfer gorau mewn diwydiant.

Canfu Archwiliad Ansawdd Canlyniadau mewn ychydig dros 75% o achosion, fod ymchwiliad prydlon a hyfedrus wedi ei gynnal gan LCS ac SRA gyda chanlyniad rhesymol a oedd yn bodloni anghenion y defnyddiwr. Ond mewn bron i 25% o achosion, roedd defnyddwyr wedi cael canlyniad a oedd yn dangos gwendidau.

Adroddodd yr Archwiliad Targedau Dangosol (ITA) ar berfformiad LCS ac SRA yn erbyn targedau Ansawdd y Comisiynydd a osodwyd ar gyfer 2007/08 (ac eithrio targed yr LSO). Y cyfnod a ystyriwyd gan yr archwiliad oedd 1 Ebrill 2007 i 30 Medi 2007. Archwiliwyd cyfanswm o 1,601 o achosion a rhoddodd y canlyniadau arwydd o'u perfformiad i'r LCS a'r SRA yn erbyn targedau'r Comisiynydd i'w galluogi i nodi'r meysydd hynny oedd angen eu gwella. Nodwyd nifer o wendidau gan OLSCC yn ystod yr ITA ac fe'u hysbyswyd i LCS ac SRA.

Cynhaliwyd yr Archwiliad Targedau Diwedd Blwyddyn (Year End Target Audit - YETA) yn Ebrill 2008 (ar ddiwedd Blwyddyn Cynllun Trin Cwynion 2007/08) a mesurwyd cyflawniad gweithrediadol LCS ac SRA yn erbyn targedau Ansawdd y Comisiynydd (ac eithrio targed yr LSO). Bu i sampl cyfatebol o 1,898 o ffeiliau achos ynghyd â gwybodaeth o 182 o ffeiliau a ddewiswyd yn flaenorol ar gyfer yr ITE roi gwybodaeth ar gyfer y canlyniadau a roddodd asesiad diffiniol i'r Comisiynydd o berfformiad LCS ac SRA yn erbyn y targedau Ansawdd. Dangosodd canlyniadau er gwaethaf rhai gwelliannau yn yr holl feysydd targed a osodwyd, fod LCS (ac i raddau llai SRA) yn methu o hyd â chymhwyso eu polisïau, prosesau a safonau cwsmer yn gyson.

Archwiliad o'r Cynllun Iawndal Iechyd Glo ac Adroddiad Arbennig
Ym mis Ionawr 2008, cyhoeddodd y Comisiynydd Adroddiad Arbennig i'r modd y cafodd yr Achosion Iawndal Iechyd Glo eu trin gan yr LCS ac SRA. Roedd yr Adroddiad hwn yn cynnwys darganfyddiadau'r ail archwiliad i'r maes hwn a gynhaliwyd gan OLSCC ym mis Medi 2007.

4. Gellir gweld copïau o holl adroddiadau archwilio OLSCC yn www.olscc.gov.uk

Roedd yr Adroddiad Arbennig yn cynnwys 11 o faterion pwysig i'w hymdrin gan LCS, un i'w ymdrin gan SRA a gosod targed i LCS ailedrych ar achosion glowyr yr oedd wedi eu cau yn flaenorol drwy gymodi.

Adolygodd OLSCC bob un o'r 1,792 o achosion Iechyd Glo a dderbyniwyd gan LCS hyd at yr archwiliad. Roedd y Comisiynydd yn bryderus o ddarganfod er gwaethaf sicrwydd oddi wrth LCS fod argymhellion o'r archwiliad blaenorol i'r maes hwn wedi eu trin, fod problemau o ran trin yr achosion yn dal yn amlwg. Ystyriai'r Comisiynydd fod hwn yn fater o fudd cyhoeddus.



Darganfyddiadau'r archwiliad a'r Adroddiad Arbennig oedd fod rhai glowyr bregus wedi eu rhoi o dan anfantais ariannol gan y modd yr oedd yr LCS wedi trin eu cwyn. Yn arbennig, nid oedd glowyr yn cael gwybodaeth gyson gan weithwyr achos er mwyn iddynt allu gwneud dewis goleuedig ynghylch pa lwybr i'w gymryd i ddatrys eu cwyn. Roedd cwynion oedd yn cael eu datrys drwy gymodi (lle deuid i gytundeb gan y defnyddiwr i gynnig a wnaed gan y cyfreithiwr) yn nodweddiadol yn arwain at lefelau is o iawndal na'r rhai a oedd yn cael eu setlo drwy ddyfarnu. Roedd dyfarnwyr yn dyfarnu am bryder ac anhwylustod yn ogystal â gorchymyn ad-dalu unrhyw ddidyniad amhriodol a wnaed gan y cyfreithiwr. Roedd canlyniadau cymodi yn tueddu i ganolbwyntio ar ad-dalu didyniadau yn unig. Y gwahaniaeth i ddefnyddwyr oedd £1,700 ar gyfartaledd.

Canfu'r archwiliad hefyd oedi wrth atgyweirio achosion yn ymwneud â chamymddygiad honedig i'r Tribiwnlys Disgyblu Cyfreithwyr (Solicitors Disciplinary Tribunal - SDT).

Deddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007
Croesawodd y Comisiynydd y Caniatâd Brenhinol i Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007 ar 30 Hydref 2007. Roedd y Comisiynydd wedi dod â'i safbwyntiau ei hun ynghylch rheoleiddio'r proffesiwn cyfreithiol a thrin cwynion at y ddadl ynghylch y ddeddfwriaeth sy'n datblygu. Roedd yn falch o weld fod nifer o ddatblygiadau sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr wedi eu cynnwys o fewn y Deddf yn ystod y camau terfynol gan gynnwys y gofyniad am i rôl Cadeirydd Bwrdd y Gwasanaethau Cyfreithiol (Legal Services Board - LSB) gael ei dal bob amser gan berson lleyg.



Mae'r Ddeddf yn rhoi cyfle am ddechrau newydd i'r proffesiwn a defnyddwyr gwasanaethau cyfreithiol. Mae'r Comisiynydd yn croesawu cyflwyno dau gorff newydd, yr LSB a'r Swyddfa Cwynion Cyfreithiol (Office for Legal Complaints - OLC) newydd ac annibynnol. Bydd yr OLC yn gweld cwynion yn cael eu trin yn annibynnol o'r proffesiwn cyfreithiol ac roedd y Comisiynydd yn arbennig o falch o nodi y bydd hyn yn cael ei sefydlu fel cynllun ombwdsmon newydd. Mae'n awyddus i sicrhau bod y pontio i'r OLC yn cael ei reoli yn effeithiol gan gynnwys bod gwelliannau yn parhau i gael eu gwneud i'r system gyfredol ar gyfer trin cwynion.

Penderfynir ar lawer o'r manylion ynghylch sut y bydd yr OLC a'r LSB yn gweithredu gan Reolau'r Cynllun a fydd yn cael eu datblygu pan sefydlir y sefydliadau.

Targedau'r Comisiynydd ar gyfer Cymdeithas y Gyfraith 2008/09
Gosododd y Comisiynydd dargedau ar gyfer yr LCS ac SRA i ymdrin â'r cyfnod 1 Ebrill 2008 i 31 Mawrth 2009. Gofynnodd yn ffurfiol am Gynllun trin cwynion newydd oddi wrth Gymdeithas y Gyfraith i ymdrin â'r cyfnod hwn yn Hydref 2007 gyda'r targedau yn cael eu rhannu gydag LCS ac SRA ym mis Rhagfyr 2007.

Mae targedau'r Comisiynydd ar gyfer 2008/09 yn adlewyrchu mai hon fydd y bedwaredd flwyddyn o weithio i Gynlluniau Trin Cwynion ar gyfer braich trin cwynion Cymdeithas y Gyfraith a lefel y perfformiad sy'n angenrheidiol yn ystod y cam hwn. Mae'r Comisiynydd hefyd wedi gosod targedau ar wahân ar gyfer LCS ac SRA, gan adlewyrchu'r gwahaniaeth yn eu perfformiad a'u strwythur busnes.

Mae'r ffocws o fewn y targedau hyn yn parhau i fod ar gynnal y gwaith o drin cwynion yn brydlon, wedi ei gydbwyso â gwell ansawdd a chysondeb yn ogystal â chyflwyno targed newydd o ran cost effeithiolrwydd y bwriedir iddo ddechrau gostwng cost gyfartalog pob cwyn a gwella gwerth am arian. Gwnaeth y Comisiynydd hi'n eglur fod angen gweithio yn fwy effeithiol, gan gynnwys ailgloriannu nifer y staff cefnogi i staff gweithio ar achosion o fewn LCS, sydd ar hyn o bryd yn 45% i 55% yn y drefn honno.

Er gwaethaf cyfnod hir o gydweithio gyda Chymdeithas y Gyfraith, LCS ac SRA, datganwyd bod y Cynllun a gyflwynwyd i'r Comisiynydd ym Mawrth 2008 yn annigonol i sicrhau dull trin cwynion effeithiol ac effeithlon.

Methodd y Cynllun a gyflwynwyd i'r Comisiynydd â chynnwys targedau ar y lefel yr oedd hi wedi eu gosod ac nid oedd digon o hyder ychwaith y byddai targedau yn cael eu cyflawni. Gosododd y Comisiynydd gosb o £275,000 ar Gymdeithas y Gyfraith am fethu â darparu cynllun digonol. Gellir canfod y rhesymau y tu ôl i'r penderfyniad hwn ar wefan OLSCC[5].

www.olscc.gov.uk

Gweithgareddau Comisiynydd Cwynion y Swyddfa Gwasanaethau Cyfreithiol
Yn 2007/08 mae OLSCC wedi cyflenwi safon uchel o fusnes a gwasanaeth cwsmer, i'r graddau fod llawer o arferion gorau'r Swyddfa wedi eu rhannu a'u mabwysiadu gan yr Adran o'r Llywodraeth sy'n ein noddi, y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Yn arbennig, mae'r gyllideb flynyddol wedi ei rheoli i o fewn 2% o'r gwariant disgwyledig, ac mae OLSCC yn parhau i ddarparu gwasanaeth gwerth am arian i'r holl randdeiliaid, y proffesiwn cyfreithiol ac i ddefnyddwyr.

Mae staff OLSCC wedi gwella'r sgiliau a'r profiadau a ddeuant i'r sefydliad. Maent yn chwilio am gyfleoedd i ddatblygu a hyfforddi, ac yn defnyddio'r sgiliau hyn i wella'r modd y cyflenwir amcanion busnes OLSCC. Mae OLSCC hefyd wedi cymryd mwy o ran mewn cynlluniau amgylcheddol ac elusennol lleol ac wedi cryfhau cyfathrebu gyda defnyddwyr gwasanaethau cyfreithiol drwy well gwefan a nifer o gyhoeddiadau heriol a llawn gwybodaeth.

5. www.olscc.gov.uk

Canlyniad Penderfyniad y Comisiynydd ynghylch Perfformiad Cymdeithas y Gyfraith 2006/2007

Ym Mehefin 2007 hysbysodd y Comisiynydd Gymdeithas y Gyfraith am ei phenderfyniad dros dro nad oedd wedi trin cwynion yn unol â'r Cynllun a gyflwynwyd iddi yn ymdrin â'r cyfnod 1 Ebrill 2006 i 31 Mawrth 2007.

Dros haf a hydref 2007, cafwyd cyfnod estynedig o sylwadau llafar ac ysgrifenedig rhwng Cymdeithas y Gyfraith, y Gwasanaeth Cwynion Cyfreithiol (Legal Complaints Service - LSC), a'r Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr (Solicitors Regulation Authority - SRA) a'r Comisiynydd. Ehangwyd y cyfnod hwn o dderbyn y sylwadau i dderbyn sylwadau ar wahân oddi wrth bob un o'r tri sefydliad – Cymdeithas y Gyfraith, SRA ac LCS – yn wahanol i flynyddoedd blaenorol pan oedd Cymdeithas y Gyfraith wedi cyfuno eu sylwadau.

Ym mis Medi 2007, cyhoeddodd y Comisiynydd ei phenderfyniad terfynol fod Cymdeithas y Gyfraith wedi methu â thrin cwynion yn unol â'i Chynllun Trin Cwynion 2006/07 ac ym mis Tachwedd 2007 cyhoeddodd na fyddai yn rhoi cosb ariannol ar Gymdeithas y Gyfraith am y methiant hwn. Roedd y penderfyniad hwn yn union gytbwys ond ei chasgliad oedd fod peidio â chodi cosb yn briodol dan yr amgylchiadau i ddangos cefnogaeth i ymrwymiad Cymdeithas y Gyfraith i wella. Dangoswyd tystiolaeth o hyn yn y modd y darparodd Cymdeithas y Gyfraith £500,000 ar gyfer 'cynllun adfer' i sicrhau bod LCS yn dal i fyny ar dir yr oedd wedi ei golli ac i gyflawni disgwyliadau'r Comisiynydd fel y cyflwynwyd hynny yng Nghynllun 2007/08.

Nododd y Comisiynydd y byddai cyfiawnhad wedi bod dros osod cosb ac wrth beidio â gwneud hynny ei bod yn ymestyn cryn ryddid i Gymdeithas y Gyfraith. Nododd y Comisiynydd y byddai'n annhebygol iawn o ymestyn yr un rhyddid eto a disgwyliai i'r holl dargedau ar gyfer 2007/08 gael eu bodloni.[6]

6. Llythyr OLSCC at Andrew Holroyd, OBE, Llywydd Cymdeithas y Cyfraith 7 Tachwedd 2007